# Cynllun Creu Lleoedd
# Rhosllannerchrugog
## Drafft Ymgynghorol

CYNGOR CYMNUNED
RHOSLLANNERCHRUGOG
COMMUNITY COUNCIL




CYNHYRCHWYD GAN OWEN DAVIES CONSULTING

FERSIWN 1, MAWRTH 2026

# CYNNWYS


Cefndir a Diben 3

Gwiriad Iechyd 6

Heriau a Chyfleoedd Allweddol 9

Amcanion 12

Prosiectau 14

Ymateb A'r Camau Nesaf 25






# 1. CEFNDIR A DIBEN

## Cyflwyniad

Rhosllannerchrugog yw pentref mwyaf Cymru, yn gartref i tua 10,000 o bobl ar draws pum ward etholiadol. Mae'r pentref, sydd wedi'i leol ar weundir ucheldirol i'r de-orllewin o Wrecsam, yn cynnwys Rhos, Ponciau, Pant a Johnstown– cymunedau sy'n rhannu teimlad o hunaniaeth sydd wedi'i wreiddio mewn treftadaeth ddiwydiannol a diwylliant Cymraeg. Datblygodd Rhosllannerchrugog yn ystod y 18fed a'r 19eg ganrif fel cymuned lofaol ac mae'n dal i fod ag adleisiau cryf o'r gorffennol hwnnw yn ei adeiladau, lleoedd a thraddodiadau.

*Ardaloedd Rhosllannerchrugog*




Ffynhonnell: Cyngor Cymuned Rhosllannerchrugog

Heddiw, mae canol y pentref yn wynebu heriau sylweddol. Stryt y Farchnad yw'r craidd masnachol o hyn, ond mae ei hyfywedd wedi dirywio wrth i fanciau a siopau bach gau, gan adael arwyddion amlwg o grebachu a newid. Mae llawer o'r hen siopau wedi cael eu troi'n dai, ac mae'r hyn sydd ar ôl o gynnig siopa yn cynnwys yn bennaf siopau cludfwyd, barbwr, cyfleustra ac archfarchnadoedd. Mae arwyddion o leoedd sydd wedi eu hesgeuluso yn tynnu oddi wrth olwg y canol. Mae Johnstown yn gweithredu fel canolfan eilaidd gyda'i glwstwr masnachol ei hun, gan ddarparu siopau cyfleustra a gwasanaethau hanfodol sydd, i lawer o bobl, wedi cymryd lle swyddogaeth Stryd y Farchnad yn gyfan gwbl. Mae rhannau o'r gymuned ymysg y 10–20% o leoedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sy'n pwysleisio'r angen am strategaeth adfywio sy'n cydbwyso angen cymdeithasol â balchder diwylliannol.

Er gwaethaf yr heriau hyn, mae Rhosllannerchrugog, neu'r Rhos fel y cyfeirir ato yn aml, yn meddu ar seilwaith cymunedol anghyffredin o gryf i le o'i faint. Mae'r Cyngor Cymuned yn chwarae rhan bwysig mewn rheoli canolfannau cymunedol, Parc Ponciau, cyfleusterau hamdden a'r fynwent. Mae clybiau chwaraeon, corau a Chyngor Ieuenctid sydd wedi bod ar waith ers dros 20 mlynedd yn cyfrannu at ddiwylliant cryf o weithgarwch a balchder bro. Mae'r Stiwt yn parhau i gynnal theatr a cherddoriaeth, gan ddenu cynulleidfaoedd rhanbarthol i leoliad 490 o seddau gyda'u llwyfan o safon broffesiynol sy'n cymharu â galluoedd Theatr Clwyd, ac mae ei bantomeim blynyddol yn denu miloedd o blant o bob rhan o Fwrdeistref Sirol Wrecsam, gan wasanaethu fel canolbwynt bywyd dinesig ac un o asedau allweddol tirwedd diwylliannol y sir. Mae Clwb Cymdeithasol Glofa'r Hafod yn cynnig lle pwysig ar gyfer digwyddiadau cymunedol. Mae gwytnwch cymdogol yn amlwg mewn caffis cymunedol a chapeli gweithgar sy'n dal i ddod â phobl at ei gilydd. Mae gan y Rhos gyfran uwch o siaradwyr Cymraeg na Wrecsam a Chymru fel cyfanrwydd, gan atgyfnerthu ei hunaniaeth drawiadol ar y ffin lle mae iaith a diwylliant yn parhau i fod yn fywiog.




Map yn dangos lleoliad strategol Rhosllannerchrugog a'i leoliad mewn perthynas ag aneddiadau gerllaw

Mae'r pentref bellach yn wynebu moment o gyfle diwylliannol sylweddol. Mae canmlwyddiant y  Stiwt yn 2026 yn cyd-ddigwydd â chais Wrecsam i fod yn Ddinas Diwylliant y Deyrnas Unedig 2029, gan ddilyn Eisteddfod Genedlaethol lwyddiannus 2025.Mae'r cyfleoedd hyn yn cynnig potensial am fuddsoddiad diwylliannol gweddnewidiol a allai adfywio Stryt y Farchnad, canfod dyfodol hyfyw i adeiladau hanesyddol, a sicrhau bod momentwm rhanbarthol yn cael ei deimlo'n lleol. Mae'r Cynllun Creu Lleoedd yn ceisio adeiladu ar gryfderau'r pentref – gan sefydlu gweledigaeth ar y cyd wedi'i gwreiddio mewn balchder lleol, diwylliant Cymraeg a phrofiad bywyd – gan ddangos ymyraethau ymarferol sy'n denu buddsoddiad, gwella llesiant, a gwneud y Rhos yn lle gwell i fyw, gweithio ac ymweld.

# GWNEUD CANOL Y PENTREF YN LLE GWYCH



Mae lleoedd fel Rhosllannerchrugog wedi bod yn ganolbwynt i i gymunedau ers cenedlaethau, ac mae hyn yn cyfrannu at eu hunaniaeth unigol a hunaniaeth yr ardal ehangach a'i phoblogaeth. Mae lleoedd yn dylanwadu arnom ni ac rydym ninnau'n parhau i ddylanwadu arnyn nhw. Mae'r Cynllun hwn yn cynnig y cyfle i helpu i ddathlu a thyfu nodweddion gorau'r Rhos gan roi bywyd newydd i'r hyn sy'n llai deniadol.

Mae angen i le gwych gyflawni mewn sawl ffordd ar yr un pryd. Mae Siartr Creu Lleoedd Cymru yn disgrifio'r rhain fel chwe thema allweddol sy'n gweithio gyda'i gilydd i wneud lle gwych:



# CYFRANIAD RHANDDEILIAID A'R GYMUNED



Rydym yn ymgynghori gyda'r cyhoedd ar y **Cynllun Creu Lleoedd Drafft** hwn yn dilyn ymchwil lleol, cyfarfodydd â rhanddeiliaid a thrafodaethau gyda sefydliadau lleol gan gynnwys Cyngor Cymuned Rhosllannerchrugog. Mae'r gweithgarwch hefyd wedi cynnwys sesiwn benodol gyda Chyngor Ieuenctid Rhosllannerchrugog, ac mae eu syniadau a blaenoriaethau wedi cyfrannu at nifer o gynigion yn y Cynllun hwn.

Gwahoddir y gymuned, busnesau a sefydliadau lleol i roi sylwadau ar y syniadau canlynol. Mae arnom eisiau deall eich blaenoriaethau a graddau'r gefnogaeth i newidiadau a gwelliannau cyn gweithredu unrhyw gynigion. Bydd y Cynllun terfynol yn dangos y ffordd at arwain buddsoddiadau a denu cyllid ar gyfer y pum mlynedd a mwy nesaf.

# 2. GWIRIAD IECHYD

Mae'r gwiriad iechyd yn gosod y cyd-destun ar gyfer y dadansoddiad a'r syniadau mewn adrannau diweddarach o'r Cynllun Creu Lleoedd hwn.

Mae'n grynodeb o Adroddiad Llinell Sylfaen a Gwiriad Iechyd Rhosllannerchrugog, a gynhyrchwyd fel rhan o broses ddatblygu'r Cynllun Creu Lleoedd yn 2025 ac mae ar gael ar gais.

## POBL A CHYMUNED

Mae tua 9,300 o bobl yn byw yn Rhosllannerchrugog mewn tua 6,000 o gartrefi, gan ei wneud yn un o gymunedau pentrefol mwyaf Cymru. Mae'r boblogaeth yn gymharol gytbwys ar draws y rhan fwyaf o grwpiau oedran, er bod y gymuned yn heneiddio gyda thua 23% bellach yn 65 oed neu hŷn (i fyny o 18.5% yn 1998).

**Proffil oedran, Rhosllannerchrugog (glas) a chyfartaledd Cymru (bar du)**




Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol – Amcangyfrifon Poblogaeth Canol Blwyddyn 2022

Mae bron i chwarter y trigolion (23.1%) yn gallu siarad Cymraeg – sy'n sylweddol uwch na chyfartaledd y sir – gan wneud Rhosllannerchrugog yn gymuned Gymraeg o bwys. Mae gan y pentref draddodiadau cymunedol cryf, gyda chorau brwd, theatr ieuenctid sefydledig, a Chyngor Ieuenctid ar waith ers dros 20 mlynedd sy'n parhau i roi llais i bobl ifanc ym mhenderfyniadau'r gymuned.

Mae tua 23% o'r trigolion heb ddim cymwysterau (ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru o 20%), ac mae rhannau o'r gymuned ymhlith y 10–20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Fodd bynnag, mae cyfraddau cyflogaeth yn rhesymol gyda 54% yn economaidd weithgar ac mewn gwaith cyflogedig.

## GWASANAETHAU A BUSNESAU

tryt y Farchnad sy'n parhau fel y craidd masnachol traddodiadol, ond mae canol y pentref wedi profi dirywiad sylweddol dros y degawdau diwethaf. Mae'r cynnig siopau yn cynnwys gwasanaethau hanfodol: fferyllfa, siop gyfleustra Co-op, siop gyfleustra arall, siop nwyddau haearn ers amser maith, a gwasanaethau personol (yn enwedig trin gwallt). Mae hefyd gaffi cymunedol a siop gymunedol.

Mae darpariaeth arlwyo yn cynnwys caffis a siopau cludfwyd dydd (gyda rhai'n agored gyda'r nos hefyd), ond does dim tai bwyta ar Stryt y Farchnad ei hun. Mae dwy dafarn gerllaw, un oddi ar Stryt y Farchnad, ond cyfyngedig yw'r economi gyda'r nos.

Dros y 30 mlynedd ddiwethaf, mae llawer o'r safleoedd masnachol wedi cael eu trosi at ddefnydd preswyl. Mae'r ddau fanc wedi cau (HSBC yn 2011, NatWest yn 2016), ynghyd â sawl siop gan gynnwys cigyddion, a siopau papur newydd a fideos. Mae amryw o adeiladau gwag ac adeiladau wedi eu hesgeuluso yn effeithio ar olwg y canol.

Mae siopau a gwasanaethau lleol wedi eu dosbarthu ar draws y gymuned ehangach, gyda Johnstown â'i Co-op, swyddfa bost, becws, deintydd a thafarn ei hun. Mae'r pentref yn elwa o ddwy ystad ddiwydiannol – Coppi (3 hectar) a Vauxhall (21.2 hectar) – sy'n darparu cyflogaeth bwysig yn lleol

**Amrywiol swyddogaethau canol pentref Rhosllannerchrugog**




## ASEDAU CYMUNEDOL EITHRIADOL

Er gwaethaf dirywiad Stryt y Farchnad, mae'r pentref ehangach yn meddu ar seilwaith cymunedol nodedig:

**Theatr y Stiwt** yw trysor mwyaf y Rhos: lleoliad 490-sedd sydd â'i lwyfan o safon broffesiynol yn cyrraedd galluoedd Theatr Clwyd, gan ddenu cynulleidfaoedd ar draws Bwrdeistref Sirol Wrecsam a'r tu hwnt i'w wneud yn un o leoliadau diwylliannol pwysicaf y fwrdeistref ac yn bresenoldeb pwysig yng ngweithgarwch celfyddydau rhanbarthol gogledd Cymru. Mae'n cynnal theatr, cerddoriaeth, sinema a digwyddiadau cymunedol, ac mae ei bantomeim blynyddol yn unig yn denu miloedd o blant ledled y rhanbarth. Cafodd yr adeilad rhestredig Gradd II* ei adfer gan y gymuned yn yr 1990au ac mae'n dathlu ei ganmlwyddiant yn 2026, gyda thîm Dinas Diwylliant 2029 eisoes wedi ei nodi fel ased allweddol ar gyfer uchelgeisiau diwylliannol Wrecsam. Mae'r adeilad yn gartref hefyd i Swyddfa'r Cyngor Cymuned. Fodd bynnag, does gan y Stiwt ddim ond 33 o leoedd parcio ac i raddau cyfyngedig yn unig mae wedi'i integreiddio â busnesau Stryt y Farchnad.

**Mae cyfleusterau hamdden a chwaraeon** helaeth, sy'n cynnwys Parc Ponciau, sawl cae chwarae, lawntiau bowlio, cyrtiau tenis a chlybiau pêl-droed, rygbi a bowls prysur. Caiff Parc Ponciau ei werthfawrogi'n deilwng fel ased hamdden o'r radd flaenaf, ond nid yw ei fuddion ar gael yn hawdd i bob rhan o'r gymuned. Dywedodd pobl ifanc sy'n byw yn Johnstown fod y parc yn teimlo'n rhy bell i ffwrdd a bod y ffordd B brysur yn gwneud y daith ar droed yn anapelgar. Maen nhw'n dibynnu yn lle hynny ar eu parciau lleol, sydd yn eu golwg nhw heb gystal offer a heb gael cymaint o fuddsoddiad. Mae sicrhau bod darpariaeth hamdden yn wirioneddol hygyrch i bob rhan o Rhosllannerchrugog – nid Ponciau yn unig – yn un o ystyriaethau pwysig y Cynllun hwn.

Mae cyfleusterau addysg a chymunedol yn cynnwys tair ysgol gynradd—Ysgol Maes y Mynydd (cyfrwng Saesneg, 3-11 oed), Ysgol I.D. Hooson (cyfrwng Cymraeg 3-11 oed), ac Ysgol Yr Hafod (3-11 oed)—ac Ysgol Y Grango (ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg, 11-16 oed). Yn ogystal â gwasanaethu fel llyfrgell fenthyg, mae'r llyfrgell yn fan cyfarfod pwysig i grwpiau cymunedol, gan gynnal gweithgareddau'n amrywio o sesiynau darllen i blant i ddosbarthiadau Cymraeg a grwpiau cymdeithasol. Mae mentrau amgylcheddol yn cynnwys y prosiect Coedwig Fach yn Penygraig.

Mae llywodraethiant cymunedol yn gryf, gyda Cyngor Cymuned gweithgar yn gweithredu praesept blynyddol sylweddol o £348,077, a Cyngor Ieuenctid sydd ar waith ers dros 20 mlynedd yn ddi-dor ac sy'n rhoi cyfle i bobl ifanc wneud cyfraniad gwirioneddol at benderfyniadau'r gymuned.

## AMGYLCHEDD A CHYMERIAD

Saif canol y pentref o fewn Ardal Gadwraeth, sy'n adlewyrchu ei gymeriad hanesyddol. Fodd bynnag, mae ansawdd y parth cyhoeddus yn wael gyda dodrefn stryd wedi dyddio, arwyddion blinedig a heriau o ran cynnal a chadw. Mae rhai safleoedd amlwg yn cynnwys adeiladau sy'n cael eu hesgeuluso.

Yr adeilad gwag mwyaf amlwg yn yr ardal yw Plas yn Rhos, sydd wedi bod yn wag ers rhai blynyddoedd. Yn gynnar yn 2026 arweiniodd cynigion i ddefnyddio'r adeilad fel llety i geiswyr lloches at wrthwynebiad sylweddol gan y gymuned, gan arwain yn y pen draw at dynnu'r cynlluniau yn ôl. Dangosodd hyn gryfder y teimlad lleol ynghylch beth sy'n digwydd i adeiladau allweddol yn Rhosllannerchrugog.

Mae dyfodol yr adeilad yn dal heb ei ddatrys, ond neges glir y gymuned yw y dylai unrhyw ddefnydd ohono yn y dyfodol fod yn rhywbeth cadarnhaol sy'n cael cefnogaeth y gymuned.

Mae'r Rhos yn meddu ar ddwysedd eithriadol o gapeli – fe wnaeth Comisiwn Brenhinol 1905 gofnodi 21 o fannau addoli yn gwasanaethu 9,414 o bobl. Er bod amryw yn parhau'n weithredol (gan gynnwys Capel Bedyddwyr Penuel a'r Capel Mawr sydd ill dau yn Rhestredig Gradd II), mae llawer o wedi cau neu eu haddasu i ddibenion eraill. Mae pedwar allan o wyth adeilad rhestredig y pentref yn fannau addoli. Y Stiwt, sy'n rhestredig Gradd II*, yw angor y dreftadaeth adeiledig.

Cafodd y pentref welliannau diweddar i'w seilwaith gan gynnwys pwyntiau gwefru cerbydau trydan mewn meysydd parcio.

## SYMUDIAD A MYNEDIAD

Mae gan y Rhos gysylltiadau bws da â Wrecsam, gyda gwasanaethau rheolaidd, gan gynnwys gwasanaeth cylch Taith 6 a ychwanegwyd yn ddiweddar ac sydd wedi cynyddu amlder a chapasiti ar goridor strategol yr A483. Fodd bynnag, mae dibyniaeth uchel ar geir gyda 66.7% yn gyrru i'r gwaith (o gymharu â chyfartaledd Cymru o 56.5%).

Mae canol cryno'r pentref yn ei gwneud yn ymarferol i gerdded, er bod patrymau strydoedd hanesyddol yn golygu bod diffyg palmentydd weithiau (gan gynnwys rhannau o Stryt yr Eglwys). Mae elltydd ond nid ydynt yn rhy serth.

Mae lleoedd **parcio** yn ddiffygiol. Mae gan y canol amryw o feysydd parcio am ddim gyda lle i wefru cerbydau trydan, ond mae'r ddau fwyaf (hen Ganolfan Gymunedol Bonc Wen a Stryt Jones) mewn cyflwr gwael heb fawr ddim arwyddion i ddangos y ffordd atynt. Mae'r 33 o leoedd parcio'r Stiwt yn annigonol ar gyfer ei gapasiti o 490 o seddau. Mae Stryt y Farchnad yn gweithredu fel system un-ffordd, ac mae'n ymddangos fod parcio ar linellau melyn dwbl yn digwydd yn aml yn ystod adegau brig.

## TREFTADAETH A HUNANIAETH DDIWYLLIANNOL

Mae Rhosllannerchrugog yn cynnal hunaniaeth ddiwylliannol fyrlymus sydd â threftadaeth Gymraeg a cherddorol yn ganolbwynt iddi. Mae gan y pentref draddodiad corawl sydd wedi cynhyrchu cerddorion o fri rhyngwladol.

Mae treftadaeth lofaol y pentref yn dal yn amlwg trwy Glwb Cymdeithasol Glofa'r Hafod (sydd bellach ym mherchnogaeth y gymuned), gyda'r fynwent yn cynnwys sawl cofeb i drychinebau glofaol, a safleoedd archaeoleg diwydiannol.

Mae gan y Rhos dafodiaith leol nodedig – ffurf unigryw o Gymraeg y gogledd-ddwyrain sy'n adnabyddus ei geirfa ei hun a ffordd o ynganu llafariaid. Mae'r dafodiaith yn cynnwys geiriau unigryw fel 'nene' (sy'n golygu 'draw acw'), sydd efallai y gair a gysylltir fwyaf â'r pentref ac a fabwysiadwyd hefyd fel teitl y papur bro lleol.

Mae Theatr y Stiwt yn goron ar y ddarpariaeth ddiwylliannol, gyda chynyrchiadau proffesiynol, perfformiadau cymunedol a datblygu doniau ieuenctid trwy Theatr yr Ifanc.

# 3. HERIAU A CHYFLEOEDD ALLWEDDOL

1. Stryt y Neuadd a'r maes parcio – dwysedd o adeiladau a ffryntiadau o ansawdd gwael. Argraff gyntaf a golwg wael ar y maes parcio. Llecyn agored bach gyda bwrdd gwybodaeth wedi ei ynysu.
2. Maes parcio Bonc Wen – cynlluniau ar gyfer tai ac adnewyddu'r maes parcio yn y dyfodol. Angen arwyddion effeithiol.
3. Stryt y Farchnad – dwysedd uchel o adeiladau gwag ac o ansawdd gwaeth mewn porth allweddol.
4. Plas yn Rhos – adeilad gwag amlwg sy'n agos i ganol y petnref, y gymuned yn gryf yn erbyn defnydd anaddas ohono; ei ddefnydd yn y dyfodol yn gwestiwn heb ei ddatrys.
5. Y Stiwt – lleoliad diwylliannol rhanbarthol pwysig.
6. Canolfan Gymdeithasol Glofa'r Hafod – lleoliad cymunedol pwysig.
7. Parc Ponciau – lle hamdden amrywiol o ansawdd uchel.
8. Gerddi Cymunedol.



**ALLWEDD**

- Asedau adeiledig neu wyrdd pwysig
- Meysydd parcio cyhoeddus
- Cyfleoedd adfywio i ganolbwyntio arnynt
- Cyswllt / symudiad allweddol
- Adeilad Rhestredig
- Cyfeirnod y dadansoddiad



## Cryfderau

**Maint a Hyfywedd**

- Un o gymunedau pentrefol mwyaf Cymru (10,000 o drigolion mewn 6,000 o gartrefi)
- Màs critigol i gefnogi gwasanaethau a busnesau hyfyw

**Asedau Cymunedol Eithriadol**

- Y Stiwt: lleoliad proffesiynol 490-sedd sy'n atyniad rhanbarthol
- Cyfleusterau hamdden helaeth
- Darpariaeth addysgol gref
- Cyngor Cymuned gweithgar gyda praesept blynyddol sylweddol (£348,077)

**Treftadaeth a Hunaniaeth Ddiwylliannol**

- Hunaniaeth ddiwylliannol Gymraeg gref
- Treftadaeth lofaol gyfoethog gyda pherchnogaeth gymunedol o asedau allweddol
- Amryw o gorau prysur a theatr ieuenctid sefydledig
- Tafodiaith leol unigryw a thraddodiadau cymunedol cryf

**Lleoliad Strategol a Chysylltiadau**

- Safle strategol ar goridor yr A483
- Cysylltiadau bws da i Wrecsam
- Parcio am ddim drwy'r canol i gyd gyda seilwaith gwefru cerbydau trydan

**Capasiti a Llywodraethiant Cymunedol**

- Llwyddiant blaenorol wrth adfer treftadaeth (y Stiwt, Parc Ponciau)
- Cyngor Ieuenctid ar waith ers 20+ mlynedd
- Llwyddiant wrth addasu hen safleoedd diwydiannol at ddibenion eraill

## Gwendidau

**Dirywiad Masnachol Stryt y Farchnad**

- Cynnig cyfyngedig o siopau wedi lleihau i wasanaethau hanfodol yn unig
- Amryw o safleoedd gwag ac adeiladau wedi eu hesgeuluso
- Sector arlwyo gwan gyda'r nos heb ddim tai bwyta na thafarn ar y stryd fawr
- Ansawdd gwael y parth cyhoeddus gyda dodrefn stryd ac arwyddion wedi dyddio

**Heriau Economaidd a Chymdeithasol**

- Ardaloedd ymysg y 10-20% mwyaf difreintiedig yng Nghymru
- Cyrhaeddiad addysgol is na'r cyfartaledd (23.1% heb ddim cymwysterau o gymharu â chyfartaledd Cymru o 19.9%)
- Cyfleoedd cyfyngedig am gyflogaeth broffesiynol yn lleol
- Poblogaeth yn heneiddio (23% dros 65, wedi cynyddu o 18.5% yn 1998)

**Trafnidiaeth a Hygyrchedd**

- Dibyniaeth uchel ar geir (66.7% yn gyrru i'r gwaith o gymharu â chyfartaledd Cymru o 56.5%)
- Trafnidiaeth gyhoeddus gyfyngedig y tu hwnt i gysylltiadau â Wrecsam
- Cyfyngiadau parcio mewn lleoliadau allweddol (y Stiwt heb ddim ond 33 o leoedd)
- Rhai strydoedd yn brin o balmentydd addas oherwydd eu culni hanesyddol

**Seilwaith a Chynnal a Chadw**

- Cymysg yw'r gwasanaeth ffôn symudol gyda phroblemau derbyn o dan do
- Adeiladau treftadeaeth yn wynebu pwysau parhaus i'w cynnal a'u cadw
- Rhai cyfleusterau cymunedol angen uwchraddio a moderneiddio

## Cyfleoedd

**Ailgysylltu Asedau â Masnach**

- Cysylltu'r Stiwt, cyfleusterau chwaraeon, ac ysgolion â Stryt y Farchnad trwy well arwyddion a llwybrau cerdded
- Cydgysylltu rhaglenni er mwyn annog ymweliadau cysylltiedig
- Ceisio dal gwariant o weithgarwch presennol y gymuned

**Y Stiwt fel Catalydd Economaidd**

- Canlwyddiant 2026 yn creu momentwm ar gyfer buddsoddiad
- Datblygu arlwyo / economi gyda'r nos i'r lleoliad 490-sedd a chynulleidfaoedd rhanbarthol
- Tyfu siopau arbenigol cysylltiedig â rhaglenni diwylliannol
- Cydgyfeirio â Wrecsam Dinas Diwylliant 2029 os bydd y cais yn llwyddo

**Adfywio o dan Arweiniad Treftadaeth**

- Gwaddol mwyngloddio glo, capeli, mynwent, ac archaeoleg ddiwydiannol yn fodd o ddenu twristiaeth
- Addasu adeiladau hanesyddol i ddibenion eraill
- Hunanaeth ddiwylliannol Gymreig drawiadol (corau, tafodiaith, y Gymraeg) fel pwynt gwerthu unigryw

**Trawsnewid Stryt y Farchnad**

- Safleoedd gwag yn cynnig cyfleoedd datblygu
- Ymyraethau i safleoedd pyrth er mwyn newid canfyddiadau
- Economi gyda'r nos i greu busnesau arlwyo newydd

**Momentwm Rhanbarthol**

- Buddsoddiad Uchelgais Bargen Twf Gogledd Cymru
- Gwelliannu cysylltedd i gysylltedd Gogledd Cymru
- Elwa ar ddynodiad Ardal Twf Cenedlaethol

**Capasiti'r Gymuned**

- Band eang cryf yn cefnogi gweithio o gartref / busnesau digidol
- Seilwaith LoRaWAN nas manteisir yn llawn arno ar gyfer rhaglenni smart
- Traddodiad 20+ mlynedd o Gyngor Ieuenctid
- Llwyddiant blaenorol o reoli ac adfer asedau

## Bygythiadau

**Dirywiad Masnachol Parhaus**

- Sail siopau a gwasanaethau Stryt y Farchnad yn cael ei herydu ymhellach
- Cystadleuaeth gan siopa ar-lein a chanolfannau rhanbarthol mwy
- Dyfodol ansicr i'r gwasanaethau hanfodol sydd ar ôl (fferyllfa, swyddfa'r post)
- Diffyg cyfraddau troedio yn lleihau hyfywedd i fusnesau sydd ar ôl

**Pwysau Demograffig a Chymdeithasol**

- Poblogaeth sy'n dal i heneiddio yn lleihau gweithgarwch economaidd a grym gwario
- Allfudiad pobl ifanc am addysg a chyflogaeth
- Perygl o ddirywiad yn y defnydd o'r Gymraeg ymysg cenedlaethau iau

**Heriau Ariannol a Llywodraethiant**

- Pwysau parhaus i gyllid y Cyngor Cymuned a darparu gwasanaethau
- Gallai costau cynnal a chadw adeiladau treftadaeth ddod yn anghynaliadwy
- Cystadleuaeth am amser gwirfoddolwyr a chapasiti'r gymuned

**Pwysau Seilwaith a Datblygu**

- Heriau rheoli parcio a thraffig yn sgil cynnydd mewn gweithgarwch

# 4. AMCANION

Mae dirywiad amlwg Stryt y Farchnad – gyda siopau gwag â chaeadau ar y ffenestri, amrywiaeth masnachol cyfyngedig, a pharth cyhoeddus sy'n edwino – wedi dod yr arwydd cliriaf o batrwm ehangach o danfuddsoddi, cywasgu economaidd a cholli hyder. Mae'r erydu hwn, yn ogystal â bod yn amlwg o safbwynt ffisegol, yn dangos gwanhau o ran hunaniaeth Rhosllannerchrugog, hyfywedd ei stryd fawr, a phrofiadau bob dydd trigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd.

Fodd bynnag, mae'r Rhos hefyd yn lle ac iddo hunaniaeth gymunedol ac arwyddocâd diwylliannol allweddol, gyda'r Stiwt yn cyfleu hyn yn fwyaf grymus fel tirnod dinesig y pentref a chanolbwynt i'r Gymraeg, treftadaeth gerddorol a balchder ar y cyd. Eto, er bod y pentref yn meddu ar asedau cymunedol nodedig, traddodiadau cryf o hunan-drefnu, a theimlad cryf o berthyn, nid yw ei ganol bellach yn adlewyrchu'r cryder hwn na'r gymuned y tu ôl iddo.

Ar yr un pryd, mae'r sylfeini ar gyfer adfywiad yn Rhosllannerchrugog yn eithriadol o gryf. Ychydig o gymunedau o faint cymharol all ddangos y fath ddwysedd o sefydliadau diwylliannol, na thraddodiad wedi'i wreiddio mor ddwfn o arwain ieuenctid, gwirfoddoli a chyfrannu at y gymuned. Nid cyd-ddigwyddiad mo'r asedau hyn: dyma yw'r cryfder sy'n diffinio Rhosllannerchrugog a'i bwynt gwerthu unigryw amlwg.

Mae rôl y Stiwt fel lleoliad diwylliannol o arwyddocâd ledled y fwrdeistref a thrwy ogledd Cymru – ynghyd â'i ganmlwyddiant eleni a momentwm uchelgeisiau diwylliannol ehangach Wrecsam – yn creu cyfle unwaith mewn cenhedlaeth. Dyma'r prif gatalydd ar gyfer adfywio Rhosllannerchrugog ar gyfer y dyfodol: nid ailddyfeisio hunaniaeth, ond ei mawrygu'n hyderus. Trwy adeiladu ar yr hyn sy'n gwahaniaethu'r lle yn ddiwylliannol a chymdeithasol, gall y Rhos ailosod ei hun fel pentref o arwyddocâd rhanbarthol, sydd wedi'i wreiddio yn ei dreftadaeth ond sydd edrych yn edrych tuag allan a chanolbwyntio ar y dyfodol.

Y dasg bellach yw ailgysylltu calon y pentref â'r ynni diwylliannol sydd o'i gwmpas; er mwyn sicrhau bod Stryt y Farchnad yn cyfleu'r un croeso, cymeriad a chreadigrwydd mae pobl yn eu profi ym mhob rhan o'r Rhos.

Mae'r amcanion sy'n dilyn yn gosod treftadaeth a hunaniaeth ddiwylliannol fel rhan greiddiol o'r strategaeth: cryfhau canol y pentref fel ei fod yn adlewyrchu'r hyn yw'r Rhos; dathlu a gwella'r asedau sy'n gwneud y gymuned yn unigryw; a sicrhau bod cenedlaethau'r dyfodol yn etifeddu Rhosllannerchrugog sydd â'i hunaniaeth nid yn unig yn ddiogel, ond yn ffynnu.

## 1. Adfywio Stryt y Farchnad

Adfer Stryt y Farchnad fel calon ddiwylliannol a masnachol y pentref: stryd sy'n adlewyrchu treftadaeth, creadigrwydd a balchder y Rhos. Lleihau nifer yr adeiladau gwag a diffaith, gwella'i golwg, cefnogi ailddefnydd o'i hunedau gwag, a chreu cyfleoedd ar gyfer busnesau newydd, gwneuthurwyr, artistiaid a mentrau cymdeithasol. Gwneud y parth cyhoeddus yn wyrddach, harddach a mwy hygyrch, a sicrhau bod Stryt y Farchnad yn estyn y croeso y byddai ymwelwyr – yn enwedig cynulleidfaoedd y Stiwt – yn ei ddisgwyl oddi wrth le sydd â hunaniaeth ddiwylliannol mor gryf.

## 2. Dathlu Diwylliant a Threftadaeth a Chysylltu Lleoedd Diwylliannol Allweddol â'i Gilydd

Cryfhau'r cysylltiadau rhwng canol y pentref a'r lleoedd mae ynni diwylliannol Rhosllannerchrugog yn ffynnu – y Stiwt, Parc Ponciau, capeli, y llyfrgell, grwpiau ieuenctid, corau a digwyddiadau cymunedol. Cefnogi fwy o raglenni diwylliannol, gwyliau, marchnadoedd a pherfformiadau yn y canol ac o'i gwmpas. Amlygu treftadaeth a straeon trwy ddehongli, llwybrau a chelf gyhoeddus, mawrygu'r Gymraeg, cerddoriaeth, a'r traddodiad glofaol a chymunedol sy'n gwneud y Rhos yn unigryw.

## 3. Gwella Symudiad a Mynediad

Ei gwneud hi'n haws i drigolion ac ymwelwyr ddefnyddio a mwynhau canol y pentref trwy wella lleoedd parcio, arwyddion, goleuadau, croesfannau a llwybrau cerdded. Sicrhau bod trefniadau parcio yn cefnogi'r Stiwt, y llyfrgell, caffis a busnesau lleol, yn enwedig yn ystod y prif ddigwyddiadau diwylliannol. Cyflwyno arwyddion dwyieithog clir sy'n cysylltu Stryt y Farchnad â'r Stiwt, Parc Ponciau, lleoliadau cymunedol a safleoedd treftadaeth, gan helpu pobl i ganfod eu ffordd o gwmpas, hamddena a darganfod mwy o'r hyn mae'r Rhos yn ei gynnig.

## 4. Grymuso Arweiniad Cymunedol a Gweithredu ar y Cyd

Cefnogi diwylliant o gyd-gyfrifoldeb dros ddyfodol Rhosllannerchrugog, gan leihau dibyniaeth ar yr un sefydliadau a gwirfoddolwyr o hyd. Annog grwpiau newydd, partneriaethau a gweithredu dinesig – o Grŵp Dinesig Rhosllannerchrugog i fentrau dan arweiniad pobl ifanc a chydweithrediadau rhwng lleoliadau cymunedol a'i gilydd. Darparu'r offer a'r dulliau, y cydgysylltu a'r gweledydd fel y gall pobl, busnesau a sefydliadau lleol lunio, arwain a chynnal gwelliannau i ganol y pentref gyda'i gilydd.

# 5. PROSIECTAU

## **AMCAN 1:** ADFYWIO STRYT Y FARCHNAD

### Pam fod hyn yn bwysig

Mae Stryt y Farchnad wedi profi dirywiad graddol a chyson dros y 30 mlynedd ddiwethaf, gydag unedau gwag, blaenau siopau sy'n dirywio ac anweithgarwch nad yw'n adlewyrchu cryfder y gymuned o'i chwmpas. Yn ein hymgynghori cymunedol, dywedodd trigolion yn glir wrthym mai golwg canol y pentref yw eu prif bryder – mae arnynt eisiau gweld gwelliannau gweladwy a fydd yn gwneud i Stryt y Farchnad deimlo'n groesawgar ac yn lle sy'n cael gofal ac yn cyfleu arbenigrwydd y Rhos.

Mae'r cyferbyniad yn drawiadol: mae gan y Rhos asedau diwylliannol eithriadol fel Theatr y Stiwt, cyfleusterau chwaraeon ffyniannus, a sefydliadau cymunedol cryf – eto nid yw'r cryfderau hyn yn weladwy yn y canol nac yn gysylltiedig â'r canol. Mae ar drigolion eisiau gweithredu ymarferol: gwell blaenau siopau, mwy o wyrddni, gwell goleuadau, a mathau o ddefnydd sy'n dod â bywyd yn ôl i leoedd gwag.



# Prosiectau â Blaenoriaeth

## 1. Rhaglen Parth Cyhoeddus Stryt y Farchnad

Trawsnewid golwg a theimlad Stryt y Farchnad trwy welliannau cydgysylltiedig i flaenau siopau, dodrefn stryd, planhigion a goleuadau. Byddai'r rhaglen hon yn gweithio gyda pherchnogion adeiladau, busnesau a'r Cyngor Bwrdeistref i greu canol croesawgar, deniadol.

Beth fyddai llwyddiant: Stryd y Farchnad yn dangos gofal ac yn cyfleu teimlad unigryw o'r Rhos, gyda gwell blaenau siopau, goleuo creadigol, mwy o blanhigion a lleoedd i eistedd. Pobl yn dewis treulio amser yma yn hytrach na dim ond pasio drwodd.

### Camau a gynigir:

- Cynnal archwiliad/arolwg manwl o Stryt y Farchnad er mwyn asesu ei chyflwr a blaenoriaethu gwelliannau
- Gallai gwelliannau posibl gynnwys:
  - Gweithio gyda pherchnogion adeiladau a busnesau i wella blaenau siopau ac arwyddion
  - Cael gwared ar gaeadau dianghenraid o flaenau siopau neu wneud y caeadau presennol yn fwy deniadol.
  - Annog busnesau i fasnachu heb roi caeadau i lawr
  - Ehangu plannu tymhorol a chyflwyno mwy o gynwysyddion a blychau
  - Cyflwyno nodweddion goleuo creadigol
  - Gosod lleoedd a dodrefn stryd croesawgar i eistedd
- Creu dull cydgysylltiedig o ymdrin â deunyddiau, lliwiau a dyluniad

## 2. Mynd i'r afael ag Adeiladau Gwag a Diffaith

Mynd i'r afael ag unedau gwag ac eiddo diffaith trwy amrywiaeth o ddulliau penodol ar gyfer adeiladau unigol a pherchnogion. Bydd atebion yn amrywio – gallai rhai adeiladau fod yn addas ar gyfer dibenion creadigol dros dro, gallai eraill gefnogi busnesau newydd, a lle nad yw'n bosibl eu hailddefnyddio'n llawn, mae gwella'r ffryntiadau yn dal yn bwysig.

Beth fyddai llwyddiant: Llai o unedau â chaeadau ar Stryt y Farchnad, gydag adeiladau gwag yn dod yn ôl i ddefnydd cynhyrchiol, neu o leiaf yn cyflwyno ffryntiadau a gaiff eu cynnal a'u cadw'n dda. Cymysgedd o fusnesau newydd, lleoedd creadigol a dibenion cymunedol yn ychwanegu gweithgarwch a diddordeb i'r canol.

### Camau a gynigir:

- Gweithio gyda pherchnogion eiddo i ddod ag unedau gwag yn ôl i ddefnydd
- Cefnogi lleoedd creadigol dros dro, stiwdios artistiaid a dibenion cymunedol fel gweithgarwch cyfamserol
- Rhoi cefnogaeth i gychwyn busnesau newydd
- Gwella tu blaen adeiladau diffaith lle na ellir eu hailddefnyddio'n llawn ar unwaith
- Archwilio pryniant gorfodol neu gamau gorfodi pan nad yw perchnogion yn ymateb
- Cydnabod bod eiddo gwag a diffaith yn ymestyn y tu hwnt i Stryt y Farchnad ei hun – Plas yn Rhos, gerllaw canol y pentref, yw'r enghraifft amlycaf o adeilad y mae ei ddyfodol hirdymor yn dal heb ei ddatrys a lle mae'n rhaid i farn y gymunedol ar unrhyw ddefnydd yn y dyfodol fod yn allweddol i unrhyw benderfyniadau.














OWEN DAVIES CONSULTING

# **AMCAN 2:** DATHLU A CHYSYLLTU ASEDAU DIWYLLIANNOL, CYMRAEG A CHYMUNEDOL

## Pam fod hyn yn bwysig

Mae gan Rhosllannerchrugog asedau cymunedol a diwylliannol eithriadol i bentref o'r maint hwn: theatr broffesiynol, capeli hanesyddol gan gynnwys adeiladau o arwyddocâd pensaernïol, presenoldeb cryf y Gymraeg, clybiau chwaraeon ffyniannus, Canolfan Gymdeithasol Glofa'r Hafod, Gardd Gymunedol, Caffi a Siop, a threftadaeth ddiwydiannol gref. Eto, mae'r cryfderau hyn yn teimlo'n wasgaredig a digyswllt oddi wrth ei gilydd a chanol y pentref.

Yn ystod yr ymgynghori, dywedodd trigolion wrthym fod treftadaeth a hunaniaeth yn bwysig iawn. Mae arnynt eisiau ymyraethau sy'n dathlu'r hyn sy'n gwneud y Rhos yn unigryw – nid gwelliannau cyffredinol a allai fod yn rhywle. Roedd y Gymraeg, hanes glofaol, traddodiad corawl, a'r Stiwt fel symbol cymunedol yn cael sylw amlwg mewn sgyrsiau. Mae hefyd gydnabyddiaeth nad yw stori Rhosllannerchrugog yn adnabyddus nac yn weladwy iawn, hyd yn oed i'r trigolion eu hunain.

Mae canmlwyddiant y Stiwt yn 2026 a chais Dinas Diwylliant 2029 Wrecsam yn creu cyfleoedd i wneud diwylliant a threftadaeth yn fwy amlwg a chysylltiedig drwy'r holl bentref.





# Prosiectau â Blaenoriaeth

## 1. Seilwaith Treftadaeth a Hunaniaeth

Creu nodau parhaol o hunaniaeth unigryw Rhosllannerchrugog trwy raglen gydgysylltiedig o lwybrau, arwyddion, celf cyhoeddus ac amlygu'r Gymraeg.

Beth fyddai llwyddiant: Hunaniaeth ddiwylliannol y Rhos yn amlwg yn yr amgylchedd bob dydd. Trigolion ac ymwelwyr yn gallu dilyn llwybrau treftadaeth gan ddarganfod straeon lleol, gweld y Gymraeg a'r dreftadaeth lofaol yn cael eu dathlu trwy gelf cyhoeddus, a chanfod eu ffordd yn hawdd rhwng lleoliadau diwylliannol. Atgyfnerthu balchder yng nghymeriad unigryw'r gymuned.

### Camau a gynigir:

- Datblygu llwybr cerdded treftadaeth sy'n cysylltu'r Stiwt, capeli hanesyddol, hen safleoedd glofaol a chysylltiadau â thrigolion nodedig
- Gosod arwyddion dwyieithog i ddangos y ffordd i gysylltu lleoliadau cymunedol allweddol
- Comisiynu celf gyhoeddus a murluniau yn dathlu'r Gymraeg (yn enwedig tafodiaith y Rhos), cerddoriaeth a threftadaeth lofaol
- Creu llwybrau barddoniaeth neu osodiadau llafar
- Gosod placiau a byrddau dehongli mewn lleoliadau arwyddocaol
- Gweithio gydag ysgolion a grwpiau cymunedol i ymchwilio a dweud straeon lleol
- Archwilio'r potensial am arddangosfa neu amgueddfa ar gyfer hanes lleol sy'n dathlu stori unigryw Rhosllannerchrugog – o bosibl mewn lleoliad presennol fel y Stiwt, neu ddefnydd posibl yn y dyfodol ar gyfer adeilad gwag addas

## 2. Rhaglenni a Digwyddiadau Diwylliannol

Datblygu rhaglen ddiwylliannol a digwyddiadau cydgysylltiedig sy'n cysylltu'r Stiwt, Canolfan Gymdeithasol Hafod, Stryt y Farchnad, Parc Ponciau a lleoedd cymunedol eraill, gan gryfhau amlygrwydd y Stiwt a chysylltiadau drwy'r holl bentref. Ar hyn o bryd, mae gweithgareddau rhagorol yn digwydd mewn lleoliadau unigol ond collir cyfleoedd i gysylltu, a gall y Stiwt deimlo ar wahân oddi wrth y gymuned ehangach eraill er mai dyma brif ased diwylliannol y Rhos.

Beth fyddai llwyddiant: Rhaglen fywiog, drwy gydol y flwyddyn o weithgarwch diwylliannol yn cysylltu lleoliadau ac yn dod â phobl i ganol y pentref. Presenoldeb y Stiwt yn amlwg ledled y Rhos, gyda llwybrau clir a chysylltiadau cryf â Stryt y Farchnad a mannau cymunedol eraill. Mynychwyr y theatr a digwyddiadau yn crwydro'r pentref ehangach, gan gynhyrchu buddion cymdeithasol ac economaidd y tu hwnt i leoliadau unigol.

### Camau a gynigir:

- Creu rhaglenni cydgysylltiedig rheolaidd yn cydlynu gweithgarwch rhwng y Stiwt, Hafod, Stryt y Farchnad a Pharc Ponciau
- Datblygu marchnadoedd, perfformiadau awyr agored, gweithgareddau teuluoedd a ffeiriau bwyd sy'n cysylltu lleoliadau
- Adeiladu partneriaethau gydag ysgolion, corau, clybiau ieuenctid a grwpiau cymunedol
- Paratoi ar gyfer dathliadau canmlwyddiant y Stiwt yn 2026 a defnyddio hyn fel catalydd
- Gwella arwyddion rhwng y Stiwt a Stryt y Farchnad
- Hyrwyddo busnesau Stryt y Farchnad a'r Hafod i gynulleidfaoedd y Stiwt a hyrwyddo'r Stiwt yn y busnesau
- Archwilio cyfleoedd i nodweithiau perfformiadau gynhyrchu buddion i'r pentref yn ehangach
- Peri bod rhaglen a phresenoldeb y Stiwt yn fwy amlwg drwy'r holl bentref
- Datblygu rhaglenni ffordiadau rheolaidd yn anelu'n benodol at bobl ifanc, megis ffilmiau sinemau wythnnosol yn y Stiwt, gan adeiladu ar rôl y lleoliad fel adnodd i'r gymuned gyfan

## 3. Rhaglen Treftadaeth Capeli

Chwilio am ddyfodol cynaliadwy i gapeli hanesyddol Rhosllannerchrugog trwy gadwraeth dreftadaeth sensitif a'r potensial o'u haddasu ar gyfer eu hailddefnyddio. Mae amryw o gapeli'n wynebu dyfodol aniscr wrth i gynulleidfaoedd edwino, eto mae'r adeiladau hyn o arwyddocâd pensaernïol a diwylliannol.

Beth fyddai llwyddiant: Capeli hanesyddol â dyfodol hyfyw hirdymor sy'n parchu eu cymeriad sanctaidd gan sicrhau nad yw adeiladau'n dirywio ac yn cael eu colli. Lle bo'n bosibl, capeli'n cynnal swyddogaethau cymunedol, diwylliannol neu greadigol newydd law yn llaw â pharhad addoli. Lle na ellir diogelu adeiladau, cofnodi a dehongli eu hanes a'u straeon mewn ffordd deilwng.

## Camau a gynigir:

- Gweithio gyda chymunedau capeli, cyrff treftadaeth a phartneriaid posibl i archwilio dewisiadau
- Asesu potensial am barhad addoli law yn llaw â dibenion cymunedol neu leoedd ar y cyd
- Archwilio gweithgareddau creadigol a diwylliannol sy'n parchu cymeriad adeiladau
- Datblygu a dathlu arwyddocâd pensaernïol a diwylliannol capeli, gyda nod o gydnabyddiaeth ffurfiol trwy restru lleol yn y dyfodol
- Datblygu gwaith dehongli hyd yn oed lle na ellir cadw adeiladau
- Ceisio cyllid am arolygon adeiladau, astudiaethau dichonoldeb ac adfer lle bo hynny'n ymarferol














# **AMCAN 3:** GWELLA SYMUDIAD, MYNEDIAD, PARCIO AC ARWYDDION

## Pam fod hyn yn bwysig

Nid yw'n rhwydd bob amser mynd o gwmpas Rhosllannerchrugog a chanfod eich ffordd rhwng lleoedd allweddol. Roedd pryderon am barcio yn cael sylw amlwg yn yr ymgynghori â'r gymuned – yr angen am fwy o leoedd parcio ger Stryt y Farchnad a gwell defnydd o'r lleoedd parcio presennol. Cyfyngedig yw'r lleoedd i barcio ger siopau a gwasanaethau ar Stryt y Farchnad, sy'n ei gwneud yn anodd i bobl sy'n galw heibio am gyfnodau byr. Mae llwybrau cerdded rhwng y canol, parciau, a lleoliadau cymunedol ac ardaloedd preswyl â bylchau mewn palmentydd, lleoedd gwael i groesi a rhwystrau hygyrchedd. Cyfyngedig yw'r arwyddion, sy'n ei wneud yn anodd i ymwelwyr ganfod cyrchfannau allweddol neu ddeall y cysylltiadau rhwng lleoedd.

Mae'r problemau symudiad a mynediad hyn yn ychwanegu at heriau Stryt y Farchnad. Os nad yw pobl yn gallu parcio'n hawdd, cerdded yn ddiogel, na chanfod eu ffordd o gwmpas, maen nhw'n llai tebygol o ymwelr a threulio amser yng nghanol y pentref. Mae gwell cysylltiadau yn hanfodol hefyd er mwyn cysylltu asedau diwylliannol gwasgaredig y Rhos – mae ar bobl angen llwybrau clir, deniadol rhwng y Stiwt, Hafod, Stryt y Farchnad a'r parciau.

Mae gwella symudiad a mynediad yn gofyn am bartneriaeth gyda Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, sy'n rheoli priffyrdd a pharcio. Gall y Cyngor Cymuned eirioli dros welliannau a chyfrannu lle bo'n bosibl, ond mae gweithredu yn gofyn am weithio ar y cyd.



# Prosiectau â Blaenoriaeth

## 1. Strategaeth a Gwelliannau Parcio

Gweithio gyda'r awdurdod lleol a phartneriaid allweddol i wneud gwell defnydd o'r lleoedd parcio presennol a gwella cyfleusterau. Mae'r pwyslais ar wneud i'r lleoedd parcio presennol weithio'n well a theimlo'n saffach, gan gadw dewisiadau'n agored am leoedd parcio ychwanegol oddi ar y stryd os bydd cyfleoedd yn codi.

Beth fyddai llwyddiant: Mae meysydd parcio Bonc Wen a Stryt Jones yn teimlo'n groesawgar ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda, gydag arwyddion clir yn helpu pobl i gael lleoedd a chanfod y ffordd i'r canol. Mae gan y Stiwt strategaeth glir ar gyfer rheoli parcio ar ddyddiau digwyddiadau. Gall ymwelwyr ganfod lleoedd parcio yn rhwydd a deall sut i gyrraedd cyrchfannau allweddol o feysydd parcio.

### Camau a gynigir:

- Sicrhau bod unrhyw waith ailddatblygu hen safle'r ganolfan gymdeithasol yn arwain at wellianu i faes parcio Bonc Wen sydd o fudd i'r gymuned ehangach
- Helpu'r Stiwt i ddatblygu strategaeth glir ar gyfer rheoli parcio ar ddyddiau digwyddiadau, a gaiff ei chyfleu'n glir i ddeiliaid tocynnau
- Datblygu arwyddion cyfeirio clir o'r meysydd parcio i Stryt y Farchnad a chyrchfannau eraill
- Cadw dewisiadau'n agored ar gyfer creu lle parcio ychwanegol oddi ar y stryd os bydd cyfleoedd addas yn codi
- Creu arwyddion i gyfeirio ymwelwyr y Stiwt at fusnesau lleol

## 2. Rhwydwaith Cerdded ac Arwyddion

Creu rhwydwaith cynhwysfawr o lwybrau cerdded ac arwyddion i ddangos y ffordd a fydd yn cysylltu cyrchfannau allweddol ar draws Rhosllannerchrugog. Mewn llawer o ardaloedd, golyga strydoedd cul nad oes lle i balmentydd, ond byddai asesiad strwythurol yn helpu i ganfod lle mae gwelliannau'n bosibl.

Beth fyddai llwyddiant: Cerdded o gwmpas Rhosllannerchrugog yn brofiad hawdd, diogel a dymunol, gyda phalmentydd di-dor lle bo'n bosibl, croesfannau da a hygyrchedd i bawb. Arwyddion cyfeirio dwyieithog yn helpu trigolion ac ymwelwyr i ddeall sut mae lleoedd yn cysylltu â'i gilydd. Gwell pyrth ar fynedfeydd y pentref yn creu teimlad o gyrraedd a chroeso.

### Camau a gynigir:

- Cynnal archwiliad o lwybrau cerdded i ganfod bylchau mewn palmentydd, croesfannau gwael, a rhwystrau rhag hygyrchedd, gan gydnabod bod strydoedd culion yn cyfyngu ar ddewisiadau mewn rhai lleoliadau
- Rhoi blaenoriaeth i welliannau ar lwybrau allweddol sy'n cysylltu Stryt y Farchnad ag asedau cymunedol pwysig
- Datblygu arwyddion cyfeirio dwyieithog sy'n cysylltu Stryt y Farchnad, y Stiwt, Hafod, parciau, y llyfrgell a lleoliadau cymunedol
- Creu gwell arwynebau 'pyrth' ar fynedfeydd ffyrdd allweddol i'r pentref
- Gweithio gyda'r cyngor sir ar flaenoriaethau a rhaglen weithredu

## 3. . Seilwaith Bysiau a Hyrwyddo Gwasanaethau

Gwella safleoedd a chysgodfannau bws, a hyrwyddo gwasanaethau bws presennol yn fwy effeithiol. Mae gan Rhosllannerchrugog gysylltiadau bws da â Wrecsam a'r ardaloedd o gwmpas, ond mae'r seilwaith yn aml yn wael ac ni chaiff gwasanaethau eu hyrwyddo'n dda.

Beth fyddai llwyddiant: Safleoedd bws â chysgodfannau o ansawdd da gyda seddau, goleuadau a gwybodaeth amser-real lle bo'n bosibl. Gall trigolion ac ymwelwyr ddeall yn hawdd pa wasanaethau sydd ar gael a pha bryd. Mae'r defnydd o fysiau yn cynyddu, yn enwedig i'r rheini heb geir.

### Camau a gynigir:

- Gweithio gyda'r awdurdod lleol a gweithredwyr bysiau i wella cyfleusterau safleoedd bws
- Cyflwyno arddangosiadau amser-real lle bo'n bosibl
- Datblygu gwell deunyddiau gwybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael
- Hyrwyddo gwasanaethau bws trwy sianelau cyfathrebu'r gymuned
- Sicrhau bod arwyddion cyfeirio newydd yn cynnwys lleoliadau safleoedd bws






Bus Departures
TrawsCymru

# **AMCAN 4:** CRYFHAU CAPASITI'R GYMUNED

## Pam fod hyn yn bwysig

Mae gweithredu'r Cynllun Creu Lleoedd hwn yn gofyn am fwy na syniadau da a chyllid – mae arno angen strwythurau cymunedol cryf, ymdrech barhaus, a phartneriaeth wirionedd rhwng y Cyngor Cymuned, sefydliadau lleol, trigolion ac yn enwedig pobl ifanc Rhosllannerchrugog. Mae gan y Rhos grwpiau cymunedol gweithgar a gwirfoddolwyr ymroddedig, ond maent yn gweithio hyd eithaf eu gallu a gallai'r cydgysylltu rhwng sefydliadau fod yn gryfach.

Yn ystod yr ymgynghori, roedd trigolion yn pwysleisio bod yn rhaid i bobl ifanc cael swyddogaethau gwirioneddol wrth wneud penderfyniadau i ddylanwadu ar ddyfodol y pentref, nid dim ond ymgynghori arwynebol. Roedd cydnabyddiaeth hefyd fod ar y gymuned angen gwell ffyrdd o rannu gwybodaeth, cydgysylltu gweithgareddau, a chefnogi gwirfoddolwyr. Heb fynd i'r afael â'r problemau hyn o ran capasiti, mae hyd yn oed prosiectau sydd wedi eu hariannu'n dda mewn perygl o fethu oherwydd diffyg perchnogaeth gymunedol gynaliadwy.

Mae'r amcan hwn yn ymwneud â chreu'r strwythurau a'r partneriaethau sy'n galluogi popeth arall yn y cynllun i ddigwydd – ac i ddal i ddigwydd y tu hwnt i gyfnod cychwynnol y prosiect.



# Prosiectau â Blaenoriaeth:

## 1. Partneriaeth Ddinesig Rhosllannerchrugog

Sefydlu partneriaeth ffurfiol sy'n dod â'r Cyngor Cymuned, sefydliadau allweddol y gymuned, yr awdurdod lleol a rhanddeiliaid eraill at ei gilydd i gydgysylltu gweithgarwch creu lleoedd.

Beth fyddai llwyddiant: Gwahanol sefydliadau ledled Rhosllannerchrugog yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd, yn rhannu adnoddau, osgoi dyblygu ac yn canfod cyfleoedd ar y cyd. Mae'r Bartneriaeth Ddinesig yn rhoi goruchwyliaeth ar y cyd wrth weithredu'r cynllun, gan greu cyfrifoldeb ar y cyd dros ddyfodol y pentref yn lle dibynnu ar sefydliadau unigol yn gweithio ar ben eu hunain.

### Camau a gynigir:

- Sefydlu partneriaeth sy'n dod â'r Cyngor Cymuned, y Stiwt, Hafod, clybiau chwaraeon, cymdeithasau trigolion, yr awdurdod lleol a rhanddeiliaid allweddol eraill at ei gilydd
- Cyfarfod yn rheolaidd i adolygu cynnydd ar weithredu'r cynllun
- Gweithio gyda'i gilydd i ganfod, ymgeisio a gweithredu cyfleoedd am gyllid grant
- Canfod cyfleoedd i weithio ar y cyd a rhannu adnoddau
- Mynd i'r afael â phroblemau sy'n dod i'r amlwg a chydgysylltu ymatebion
- Sicrhau bod gweithgareddau gwahanol sefydliadau yn ategu yn hytrach na chystadlu yn erbyn ei gilydd
- Creu trefniadau llywodraethu a chylchoedd gorchwyl clir

## 2. Rhaglen Greu Lleoedd o Dan Arweiniad Pobl Ifanc

Creu cyfleoedd gwirioneddol i bobl ifanc wneud penderfyniadau wrth lunio dyfodol Rhosllannerchrugog. Mae hyn yn mynd y tu hwnt i ymgynghori i roi rheolaeth i bobl ifanc dros brosiectau a chyllidebau penodol. Gall y Cyngor Ieuenctid presennol fod yn fforwm ar gyfer y gwaith hwn, neu gallai fod angen mynd ati o'r newydd.

Beth fyddai llwyddiant: Pobl ifanc â dylanwad gwirioneddol dros ddatblygiad y Rhos, gyda rheolaeth dros brosiectau a chyllidebau penodol. Y syniadau'n cyfrannu at yr hyn sy'n digwydd yn y pentref, a chynrychiolaeth pobl ifanc ar y Bartneriaeth Ddinesig yn sicrhau bod eu lleisiau yn dylanwadu ar benderfyniadau strategol. Pobl ifanc yn teimlo perchnogaeth o ddyfodol eu cymuned.

### Camau a gynigir:

- Archwilio a all y Cyngor Ieuenctid presennol weithredu fel y fforwm ar gyfer creu lleoedd o dan arweiniad pobl ifanc, neu a oes angen mynd ati mewn ffordd wahanol
- Rhoi rheolaeth i bobl ifanc dros brosiectau a chyllidebau penodol – mae syniadau a godwyd gan y Cyngor Ieuenctid yn cynnwys celf gyhoeddus, llyn natur ym Mharc Ponciau, ac offer hamdden newydd
- Sicrhau bod prosiectau o dan arweiniad pobl ifanc yn adlewyrchu anghenion pobl ifanc o bob rhan o'r Rhos, gan gynnwys buddsoddi mewn parciau lleol a chyfleusterau chwarae yn Johnstown lle mae pobl ifanc yn teimlo nad oes ganddyn nhw gystal offer ag ym Mharc Ponciau
- Creu a chefnogi mannau cymdeithasol a lleoedd cyfarfod anffurfiol i bobl ifanc o bob rhan o'r pentref – gan gydnabod bod ar bobl ifanc angen rhywle croesawgar i dreulio amser gyda'i gilydd, nid yn unig gweithgareddau a chlybiau strwythuredig
- Cefnogi ymchwil a dweud straeon treftadaeth o dan arweiniad pobl ifanc
- Galluogi pobl ifanc i gynllunio llwybrau cerdded neu lwybrau gweithgareddau
- Sicrhau cynrychiolaeth pobl ifanc ar y Bartneriaeth Ddinesig gyda hawliau pleidleisio
- Gweithio gydag ysgolion, clybiau ieuenctid a grwpiau cymunedol i gyrraedd pobl ifanc amrywiol

## 3. Canolfan Gwirfoddolwyr a Sgiliau

Datblygu cymorth cydgysylltiedig i wirfoddolwyr a grwpiau cymunedol ar draws Rhosllannerchrugog, gan gweithio gydag AVOW (Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Wrecsam). Mae llawer o weithgareddau creu lleoedd yn dibynnu ar wirfoddolwyr, ond mae unigolion a grwpiau yn aml yn gweithio'n annibynnol heb adnoddau na datblygu sgiliau ar y cyd.

Beth fyddai llwyddiant: Gwirfoddoli yn y Rhos yn rhywbeth sy'n gynaliadwy ac yn rhoi boddhad. Gwirfoddolwyr yn cael cyfle am hyfforddiant, adnoddau ac offer ar y cyd. Pobl yn gallu canfod cyfleoedd yn rhwydd i gyfrannu eu sgiliau a'u hamser. Grwpiau cymunedol yn adeiladu gallu i weithredu prosiectau yn effeithiol.

### Camau a gynigir:

- Gweithio gydag AVOW i ddatblygu cymorth cydgysylltiedig i wirfoddolwyr
- Darparu hyfforddiant mewn codi arian, rheoli prosiectau a threfnu digwyddiadau
- Rhannu offer ac adnoddau rhwng grwpiau
- Cysylltu pobl sydd â chyfleoedd i gyfrannu
- Cydnabod a dathlu cyfraniadau gwirfoddolwyr
- Cynnal y ganolfan trwy sefydliad presennol neu weithredu fel swyddogaeth gydgysylltu rhwng lleoliadau a'i gilydd
- Adeiladu gallu'r gymuned i gyflawni prosiectau'n annibynnol

## 4. Canolbwynt Cyfathrebu i'r Gymuned

Creu sianelau cyfathrebu cydgysylltiedig i rannu gwybodaeth ynghylch gweithgareddau, cyfleoedd a phenderfyniadau sy'n effeithio ar y Rhos. Ar hyn o bryd, caiff gwybodaeth ei gwasgaru ar draws cyfryngau cymdeithasol, byrddau hysbysu a gwefannau gwahanol sefydliadau, gan ei gwneud yn anodd i drigolion gael yr wybodaeth lawn a diweddaraf.

Beth fyddai llwyddiant: Trigolion yn gallu canfod yn rhwydd beth sy'n digwydd yn Rhosllannerchrugog trwy bwynt gwybodaeth canolog. Digwyddiadau, newyddion, ymgyngoriadau a chyfleoedd yn cael eu hyrwyddo'n ddwyieithog trwy sianelau cydgysylltiedig. Gweithgareddau a llwyddiannau'r Rhos yn cyrraedd cynulleidfaoedd ehangach, yn cefnogi twristiaeth ddiwylliannol a chodi proffil rhanbarthol y pentref.

### Camau a gynigir:

- Creu pwynt canolog ar gyfer gwybodaeth gymunedol (calendrau digwyddiadau, newyddion, ymgyngoriadau, cyfleoedd gwirfoddolwyr)
- Sicrhau darpariaeth ddwyieithol ym mhob ffurf o gyfathrebu
- Cynnal presenoldeb ar-lein a byrddau hysbysu mewn lleoliadau allweddol
- Cydgysylltu gwybodaeth rhwng gwahanol sefydliadau er mwyn osgoi dyblygu
- Hyrwyddo gweithgareddau a llwyddiannau'r Rhos i gynulleidfaoedd rhanbarthol ehangach
- Defnyddio dulliau cyfathrebu i gefnogi twristiaeth ddiwylliannol a chodi proffil y pentref
- Archwilio 'pwyntiau syniadau' ffisegol mewn lleoliadau allweddol o gwmpas y pentref – ffyrdd syml, gweladwy i drigolion o bob oedran i awgrymu gwelliannau a chyfrannu at y sgwrs sy'n mynd ymlaen am ddyfodol y Rhos.



# YMATEB A'R CAMAU NESAF

## Gellir cyflwyno sylwadau ar-lein ar y Cynllun drafft trwy ddefnyddio'r ffurflen sylwadau neu'r map rhyngweithiol i bostio syniadau:

25

wrexhamplacemaking.info/rhos/

Cynhelir digwyddiad galw heibio yng nghanol y pentref a fydd yn rhoi cyfle i gyfarfod y tîm a thrafod y Cynllun. Bydd manylion yn cael eu hysbysebu'n lleol.

Yn dilyn yr ymgyngoriadau ar y Cynllun drafft, bydd yr holl sylwadau a dderbynnir yn cael eu hadolygu a'u trafod gyda'r rhanddeiliaid lleol cyn cytuno ar Gynllun terfynol. Bydd y Cynllun yn cynnwys cynllun gweithredu yn disgrifio sut y gellir gweithredu cynigion sydd â chefnogaeth y gymmuned ehangach, eu hariannu ac o fewn pa fath o amserlen.

Contact Owen Davies Consulting,
43A&B Frogmore Street, Abergavenny, NP7 5AN.

Owen Davies - owen@owendaviesconsulting.co.uk and
Adam Greenwood – adam@owendaviesconsulting.co.uk

Owen Davies Consulting Ltd is the owner or the licensee of all intellectual property rights in connection with the study and the material published with it. These works are protected by copyright laws and treaties around the world. All such rights are reserved and should not be reproduce, duplicated, copied, sold, resold, or exploited for any commercial purposes, products or service.